# City & Guilds Lefel 4 Ymarfer Proffesiynol yn y maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Medi 2024 Fersiwn 1.0

## Pecyn ymgeiswyr

| Version and date | Change detail | Section |
| --- | --- | --- |
| Medi 2024 (v1.0) | Fersiwn Cychwynnol | n/a |

**Contents**


City & Guilds Level 4 Professional Practice in Health and Social Care **Error! Bookmark not defined.**

**Contents** **3**

**1 Assessment overview** Error! Bookmark not defined.

**2 Candidate guidance** Error! Bookmark not defined.

**Appendix 1 Marking criteria** Error! Bookmark not defined.

**Appendix 2 Grading descriptor tables** Error! Bookmark not defined.

**Appendix 6 Project approval form** Error! Bookmark not defined.

# 1 Trosolwg asesu

### Dull asesu

Caiff cymhwyster Lefel 4 Ymarfer Proffesiynol ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol ei asesu drwy'r asesiadau canlynol.

- portffolio o dystiolaeth (Tasg A)
- project, sy'n cynnwys cyfres o dasgau ysgrifenedig, arsylwi ar ymarfer yn uniongyrchol a thrafodaeth broffesiynol (Tasgau B-Ch)

Ceir dadansoddiad manwl o'r tasgau hyn isod.

**Tasg A – portffolio o dystiolaeth**

Caiff y portffolio o dystiolaeth ei asesu'n fewnol ar y cyd â Thasg Ch; rhoddir barn gyfannol derfynol a chaiff y canlyniad ei anfon i City & Guilds.

**Tasg B** – mae'r tasgau hyn yn ymwneud â deddfwriaeth, damcaniaethau a modelau sy'n gysylltiedig ag ymarfer plentyn-ganolog ac maent yn rhan o'r agwedd baratoadol ar y project.

Mae Tasg B yn cynnwys y canlynol:

**Tasg B(i)** – ymateb ysgrifenedig sy'n dangos dealltwriaeth o **ddeddfwriaethau, confensiynau a chodau ymarfer**

**Tasg B(ii)** – ymateb ysgrifenedig sy'n dangos cymhwyso dealltwriaeth o **ddamcaniaethau a modelau** i gefnogi'r gwaith o hybu llesiant a hawliau a rhyddid unigolion.

**Tasg B(iii)** – ymateb ysgrifenedig sy'n archwilio themâu **urddas a pharch, dinasyddiaeth a chynhwysiant ac eiriolaeth** a **chydgynhyrchu** sy'n ymwneud â chyd-destun iechyd a gofal cymdeithasol.

Caiff y tasgau hyn eu hasesu'n allanol gan y corff dyfarnu.

**Tasg C** – yn ei gwneud yn ofynnol i'r ymgeisydd gynnal gwerthusiad o arfer o fewn cyd-destun y llwybr a ddewiswyd i nodi maes ffocws gyda golwg ar wella'r cymorth ar gyfer cyflawni canlyniadau cadarnhaol i unigolion. Bydd y dasg hon yn ffurfio sail i werthusiad ar gyfer y prosiect yn nhasg D.

Caiff y dasg hon ei hasesu'n allanol gan y corff dyfarnu.

Bydd angen i chi werthuso maes ymarfer mewn perthynas â'r safbwyntiau rheoliadol a damcaniaethol a ystyriwyd yn Nhasg (B) â'r nod o wella cymorth ar gyfer cyflawni deilliannau

cadarnhaol i unigolion yn eich gweithle/lleoliad. Bydd angen i chi gynnwys amlinelliad o'r broses y byddwch yn ei defnyddio.

**Tasg Ch** – yn cwmpasu elfennau ymarferol y **project** sy'n gysylltiedig ag ymarfer yr ymgeisydd ei hun, sy'n rhoi cynllun ar waith i gynnal a chefnogi canlyniadau cadarnhaol i unigolion yn eu gweithle/lleoliad.

Mae Tasg Ch yn cynnwys y canlynol:

**Tasg Ch(i)** – **cynllun project**

Tasg Ch(ii) – rhoi cynllun y project ar waith, a gaiff ei asesu drwy gwblhau **log myfyriol** a thrwy **arsylwi ar ymarfer yn uniongyrchol**

**Tasg Ch(iii)** – gwerthusiad terfynol o weithgareddau drwy **drafodaeth broffesiynol**

Caiff y tasgau yn adran (Ch) eu hasesu'n fewnol ar y cyd â'r portffolio (Tasg A); rhoddir barn gyfannol derfynol a chaiff y canlyniad ei anfon i City & Guilds.

# 2 Canllawiau i ymgeiswyr

## Trosolwg Asesu

Mae'r cymhwyster hwn wedi cael ei ddatblygu a'i ddylunio er mwyn eich galluogi i ddangos eich gallu i gefnogi a chyflwyno'r ymarfer gorau mewn maes llwybr a ddewiswyd. Bydd cwblhau'r cymhwyster hwn yn eich galluogi i ddatblygu, cyflwyno a chynnal ymarfer sy'n cefnogi deilliannau cadarnhaol unigolion yn eich gweithle/lleoliad.

Mae'r asesiad hwn yn cynnwys nifer o weithgareddau. Nod y rhain yw asesu eich gallu i ddangos y wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen ar gyfer eich rôl, ynghyd â'r sgiliau a'r cymwyseddau ymarferol sydd eu hangen i gefnogi ymarfer gwell.

Fel rhan o'r gweithgareddau hyn, gofynnir i chi ystyried ymarfer yn eich gweithle/lleoliad eich hun, a meddwl am sut y gallwch ddylanwadu'n gadarnhaol ar ddeilliannau i unigolion. Fel rhan o hyn, bydd yn rhaid i chi wneud y canlynol:

- Gwerthuso a myfyrio ar ymarfer yng nghyd-destun y llwybr o'ch dewis; nodi maes ffocws i gefnogi deilliannau cadarnhaol i unigolion. (Tasg C)
- Gan ddefnyddio'r canfyddiadau o'ch gwerthusiad, datblygu cynllun yn nodi sut y byddwch yn gwella ac yn datblygu ymarfer yn eich gweithle/lleoliad eich hun. (Tasg Ch(i))
- Drwy eich ymarfer eich hun, rhoi eich cynllun ar waith er mwyn cefnogi deilliannau cadarnhaol i unigolion yn eich gweithle/lleoliad. (Tasg Ch(ii))

Caiff yr asesiad ymarfer ei ategu gan weithgareddau pellach â'r nod o ddangos eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth sy'n adlewyrchu eich ymarfer. Bydd yn rhaid i chi wneud y canlynol:

- dangos eich dealltwriaeth o'r egwyddorion sy'n ymwneud â deddfwriaeth, damcaniaethau a modelau ymarfer person/plentyn-ganolog drwy nifer o **dasgau ysgrifenedig** (Tasg B).
- Cyflwyno gwerthusiad terfynol o'ch gweithgareddau a'r ffordd rydych yn gweithio drwy **drafodaeth broffesiynol** (Tasg Ch(iii))

Bydd **portffolio o dystiolaeth** (Tasg A) yn cael ei ddefnyddio i gasglu tystiolaeth asesu ar gyfer deilliannau dysgu lle na fydd cyfleoedd ymarferol yn cael eu cyflwyno o bosibl drwy'r project.

*(*) **Noder.** Fel rhan o'r asesiadau hyn, mae angen i chi ystyried maes ffocws a'r ffordd orau o ddylanwadu ar ymarfer yn eich gweithle/lleoliad. Efallai y bydd eich ffocws yn ymwneud ag ystyried newid bach yn eich gweithle/lleoliad a'i roi ar waith; efallai y bydd yn ymwneud ag ystyried newid ehangach a sut rydych yn mynd ati i wneud hyn, neu efallai y bydd yn ymwneud â sut rydych yn cynnal ac yn datblygu ymarfer cadarnhaol er mwyn cefnogi deilliannau cadarnhaol i unigolion ymhellach.*

## Gwybodaeth gyffredinol i ymgeiswyr

**Cyflwyniad i'r tasgau**
Pan fydd y tasgau yn cyfeirio at 'y llwybr o'ch dewis', sylwer bod hyn yn ymwneud â'r llwybr rydych wedi canolbwyntio arno fel rhan o'ch rhaglen ddysgu. Bydd hyn yn ymwneud ag un o'r canlynol:

a) Arwain cefnogaeth i leihau arferion cyfyngol drwy ddulliau cadarnhaol i gefnogi ymddygiad
b) Arwain ymarfer gydag unigolion sy'n byw gydag afiechyd meddwl
c) Arwain ymarfer gydag unigolion sy'n byw gyda dementia
d) Arwain ymarfer gydag unigolion sy'n byw gydag anabledd dysgu/awtistiaeth
e) Arwain ymarfer ar gyfer plant a phobl ifanc anabl
f) Arwain ymarfer gyda phlant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal
g) Arwain ymarfer gyda theuluoedd a gofalwyr

**Cyflwyno tystiolaeth**
Mae ymatebion ysgrifenedig yn ofynnol ar gyfer Tasgau B ac C. Dylid cyflwyno ymatebion ysgrifenedig ar ffurf electronig, wedi'u teipio. Dylech sicrhau bod eich gwaith wedi'i gyflwyno mewn ffordd daclus, h.y. dylid defnyddio ffont safonol mewn maint y gellir ei ddarllen (fel Times New Roman, neu ffont cyfatebol, maint 12) a gofod dwbl a dylid sicrhau bod digon o le ar ymyl y dudalen.

**Cyfrif geiriau**
Dylid defnyddio cyfrifon geiriau nodweddiadol, lle nodir nhw, fel canllawiau bras i helpu i gynhyrchu tystiolaeth ddigonol. Bydd y marcio'n ymwneud ag ansawdd y dystiolaeth a gynhyrchir ac nid a yw'r cyfrif geiriau wedi'i fodloni. Mae arweiniad ar gyfer cyfri amcangyfrif nifer y geiriau yn ôl y geiriau sy'n llunio'r ymateb ac nid yw'n cynnwys unrhyw gyfeiriadau at ffynonellau allanol.

**Defnyddio adnoddau allanol a chyfeirnodi**
Lle y bo'n berthnasol, caniateir i chi ddefnyddio adnoddau allanol a chyfeirio atynt yn ystod y tasgau asesu. Fodd bynnag, mae'n rhaid i chi nodi unrhyw ffynonellau allanol rydych chi wedi'u defnyddio fel rhan o'ch ymateb a'u cyfeirnodi yn glir. Mae'r adran ***'Beth mae'n rhaid i chi ei gynhyrchu ar gyfer yr asesiad'*** o bob tasg yn nodi'n glir lle y bydd yn rhaid darparu rhestr gyfeirio os ydych wedi defnyddio unrhyw adnoddau allanol fel rhan o'ch ymateb i'r dasg. **Sylwer**, does dim fformat wedi'i ddiffinio ar gyfer darparu'r rhestr gyfeirio – ond rhaid cyfeirio'n glir ar unwaith at unrhyw ffynonellau allanol a ddefnyddir.

**Defnyddio Deallusrwydd Artiffisial (DA)**
Dylid cynghori ymgeiswyr hefyd **na** chaniateir defnyddio offer deallusrwydd artiffisial (AI) fel Chat GPT i ddatblygu tystiolaeth asesu. Rhaid eu hatgoffa mai pwrpas yr asesiad hwn yw adlewyrchu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u sgiliau eu hunain. Byddai defnyddio deallusrwydd artiffisial fel Chat GPT yn cael ei ystyried yn ffurf annerbyniol o lên-ladrad ac mae'n fath o gamymddwyn y dylid rhoi gwybod i City & Guilds amdano. Os amheuir defnyddio AI, bydd hyn yn sbarduno ymchwiliad oherwydd amheuaeth o lên-ladrad, naill ai gan y ganolfan neu gan City & Guilds – ac mae'n bosibl y gallai hynny arwain at gosbau i ddysgwyr.

**Cyfrinachedd**
Bydd angen i chi fodloni gofynion cyfrinachedd a chydsynio eich sefydliad/lleoliad bob amser wrth gwblhau'r tasgau asesu. Rhaid i'r holl dystiolaeth a gyflwynir fodloni gofynion cyfrinachedd a chydsynio eich sefydliad/lleoliad. Mae'n rhaid i chi hefyd sicrhau eich bod yn gweithio mewn ffyrdd sy'n cydymffurfio ag ystyriaethau diogelu yn eich amgylchedd gwaith ar bob adeg, a bod yn ymwybodol o hyn

*Trosolwg asesu*

*At ddiben yr asesiad hwn, gofynnir i chi ystyried ymarfer yn eich gweithle/lleoliad eich hun, a meddwl am sut y gallwch ddylanwadu'n gadarnhaol ar ddeilliannau i unigolion. Fel rhan o'ch asesiad, bydd angen i chi ystyried yr holl feysydd dysgu a gwblhawyd gennych fel rhan o'ch rhaglen ddysgu. Bydd hefyd angen i chi sicrhau bod y maes ffocws a nodwyd yn lle y byddwch yn gallu dylanwadu ar ymarfer yn realistig, gyda'r nod o gefnogi deilliannau cadarnhaol i unigolion.*

**TASG A**

Mae angen i chi gadw portffolio o dystiolaeth drwy gydol eich cyfnod asesu. Nod y portffolio yw casglu tystiolaeth ar gyfer deilliannau na fyddent yn cael eu gweld yn uniongyrchol drwy eich tasgau na thrwy'r project. Gallwch hefyd ddefnyddio'r portffolio i ddarparu unrhyw enghreifftiau 'penodol' o dystiolaeth sy'n nodi cyflawniadau a gweithgareddau allweddol a gyflawnwyd fel rhan o'ch ymarfer yn ystod y cyfnod asesu.

Gofynnir i chi gyflwyno eich portffolio, ac efallai bydd gofyn i chi ateb cwestiynau am gynnwys eich portffolio yn ystod y drafodaeth broffesiynol yn Nhasg Ch.

Bydd eich aseswr mewnol yn eich helpu i sicrhau eich bod yn dewis y dystiolaeth fwyaf perthnasol o'ch portffolio.

***Amodau asesu***

Amodau arferol y gweithle

***Beth mae'n rhaid i chi ei gynhyrchu ar gyfer yr asesiad***

- Portffolio o dystiolaeth – a allai gynnwys – arsylwadau ar ymarfer; ac a all gynnwys – dogfennaeth/cynhyrchion o'r gweithle, tystiolaeth tystion, ymatebion i gwestiynau, myfyrdodau, astudiaethau achos ategol

**TASG B**
*Mae Tasg B yn cynnwys tair tasg ysgrifenedig sy'n ymwneud â deddfwriaeth, damcaniaethau a modelau ymarfer person/plentyn-ganolog ac maent yn rhan o'r agwedd baratoadol ar y project.*

**Tasg B(i)**
Yng nghyd-destun eich rôl, disgrifiwch sut y gallwch greu lleoliad diogel sy'n galluogi unigolion i fynegi eu hunaniaeth (e.e. cyfeiriadedd rhywiol, credoau crefyddol, dewis iaith) heb ofni gwahaniaethu neu aflonyddwch.

Fel rhan o'ch ymateb, mae'n rhaid i chi ystyried deddfwriaeth, confensiynau a chanllawiau sy'n ymwneud â'r canlynol:

- Cydraddoldeb a hawliau
- Ymarfer person/plentyn-ganolog
- Diogelu
- Y Gymraeg
- Eiriolaeth

Dylai'r ddogfen wybodaeth fod tua **2000** o eiriau i gyd.

***Amodau asesu***
Gweithio'n annibynnol mewn amodau tawel, lle cewch lonydd

***Beth mae'n rhaid ei gynhyrchu ar gyfer yr asesiad:***
- Ymateb ysgrifenedig
- Rhestr gyfeirio o unrhyw ymchwil, ffynonellau gwybodaeth neu adnoddau a ddefnyddiwyd neu y cyfeiriwyd atynt

## Tasg B(ii)

Fel rhan o'ch rhaglen ddysgu, rydych wedi ystyried nifer o ddamcaniaethau a modelau a ddefnyddir i gefnogi ymarfer person/plentyn-ganolog.

Disgrifiwch sut y gellir cymhwyso'r damcaniaethau a'r modelau hyn o fewn ymarfer person/plentyn-ganolog i gefnogi llesiant, hawliau a rhyddid unigolion.

Fel rhan o'ch ymateb, dylech fod wedi dangos dealltwriaeth o ddamcaniaethau/modelau sy'n cwmpasu **pob un** o'r ffactorau canlynol, ac wedi cyfeirio atynt:
- biolegol
- cymdeithasegol
- seicolegol.

Dylai'r ddogfen wybodaeth fod tua **2000** o eiriau i gyd.

***Amodau asesu***

Gweithio'n annibynnol mewn amodau tawel, lle cewch lonydd

***Beth mae'n rhaid ei gynhyrchu ar gyfer yr asesiad:***

- Ymateb ysgrifenedig
- Rhestr gyfeirio o unrhyw ymchwil, ffynonellau gwybodaeth neu adnoddau a ddefnyddiwyd neu y cyfeiriwyd atynt

**Tasg B(iii)**
Byddwch yn cael senario y bydd angen i chi ei darllen a'i hadolygu. Yna bydd angen i chi ddarparu ymatebion i'r cwestiynau a restrir isod. Dylech ystyried sut rydych yn hybu llais a rheolaeth unigolion a'r hyn rydych wedi'i ddysgu am y meysydd pwnc canlynol yn eich ymatebion:

- Urddas a pharch
- Dinasyddiaeth a chynhwysiant
- Eiriolaeth a chydgynhyrchu

Cwestiynau:
- Ym mha ffordd y mae'r meysydd pwnc yn berthnasol i'r senario?
- Pa brif gasgliadau ydych chi wedi dod iddynt ar ôl adolygu'r senario ac ystyried y meysydd pwnc, a pham?
- Gan ystyried y meysydd pwnc, a allwch ddisgrifio rhai gwerthoedd a sgiliau cyfathrebu eraill a allai fod wedi arwain at ganlyniadau mwy cadarnhaol ar gyfer yr unigolion yn y senario hon?

***Amodau asesu***
Gweithio'n annibynnol mewn amodau tawel, lle cewch lonydd

***Beth mae'n rhaid ei gynhyrchu ar gyfer yr asesiad:***
- Ymatebion ysgrifenedig i gwestiynau

**TASG C**

*Ar gyfer Tasg C, byddwch yn cynnal gwerthusiad o arfer o fewn cyd-destun eich llwybr dewisol i gefnogi'r gwaith o nodi maes ffocws i gefnogi canlyniadau cadarnhaol i unigolion.*

Bydd gofyn i chi werthuso maes ymarfer mewn perthynas â'r safbwyntiau rheoliadol a damcaniaethol a ystyriwyd yn nhasg (B) gyda golwg ar wella'r gefnogaeth ar gyfer cyflawni canlyniadau cadarnhaol i unigolion. Bydd angen i chi gynnwys amlinelliad o'r broses y byddwch yn ei dilyn.

Ar gyfer y dasg hon, bydd angen i chi wneud y canlynol:

- Nodi maes ymarfer i'w werthuso.
- Amlinellu'r broses y byddwch yn ei defnyddio i werthuso, sut y byddech yn gweithio gyda'ch rheolwr ac yn cyd-drafod ag ef er mwyn cytuno ar y maes ffocws a chael cefnogaeth.
- Gwerthuso'r maes ymarfer gan gynnwys:
  - nodi maes ffocws penodol.
  - myfyrio ar eich ymarfer eich hun mewn perthynas â'r maes a ddewiswyd, yn ogystal ag ymarfer pobl eraill rydych yn gweithio gyda nhw. Dylai hyn gynnwys ystyried pa mor gyfredol ac effeithiol yw eich ymarfer ac ymarfer pobl eraill o fewn y gweithle/lleoliad.

Fel rhan o'r broses a'r gwerthusiad, ac fel y bo'n briodol, bydd angen i chi fod wedi ystyried a nodi'r canlynol fel rhan o'ch ymateb:

- Gofynion deddfwriaethol, safonau a fframweithiau a Chodau Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol perthnasol
- Defnyddio ymarfer wedi'i lywio gan dystiolaeth
- Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant
- Safonau'r sector
- Ystyriaethau diogelu
- Polisïau a gweithdrefnau mewnol
- Gwerthusiadau mewnol
- Gwerthusiadau allanol, gan gynnwys arolygu a sicrhau ansawdd

Dylech amlinellu'r maes ffocws a nodwyd yn glir yn eich ymateb, gan gyfiawnhau pam eich bod wedi dewis y maes hwn.

Er bod y dasg hon yn adeiladu ar y safbwyntiau rheoliadol a damcaniaethol a ystyriwyd yn Nhasg (B), fe'ch anogir hefyd i ystyried cynnwys o'r holl unedau rydych wedi'u hastudio fel rhan o'ch ymateb.

***Amodau asesu***
Gweithio'n annibynnol mewn amodau tawel, lle cewch lonydd

***Beth mae'n rhaid ei gynhyrchu ar gyfer yr asesiad:***

- Amlinelliad o'r broses i'w defnyddio
- Eich gwerthusiad o'r maes ymarfer
- Rhestr gyfeirio o unrhyw ymchwil, ffynonellau gwybodaeth neu adnoddau a ddefnyddiwyd neu y cyfeiriwyd atynt

***Tystiolaeth ychwanegol:***

- dogfen ganiatâd, lle y bo'n berthnasol, gan randdeiliaid angenrheidiol er mwyn cael gafael ar wybodaeth a/neu ei defnyddio

**TASG Ch**

*Ar gyfer Tasg Ch, mae'n ofynnol i chi wella a datblygu ymarfer i gefnogi deilliannau cadarnhaol i unigolion yn eich gweithle/lleoliad. Bydd y tasgau yn gofyn i chi ddatblygu cynllun project; rhoi eich cynllun ar waith yn ymarferol a gwerthuso'r canlyniadau. Cynhelir eich gwerthusiad ar ffurf Trafodaeth Broffesiynol â'ch aseswr.*

**Tasg Ch(i)**

Gan adeiladu ar Dasgau B ac C, bydd gofyn i chi ddarparu cynllun project manwl ar gyfer y maes ymarfer y dewisoch ganolbwyntio arno yn Nhasg C.

Mae'n rhaid i gynllun eich project nodi sut y byddwch yn cynnig datblygu ymarfer, yn rhoi hyn ar waith yn eich maes cyfrifoldeb eich hun ac yn gwerthuso'r canlyniadau, â'r nod o ddefnyddio'r deilliannau i lywio ac, o bosibl, gefnogi newid ehangach i ymarfer yn y gweithle/lleoliad.

Dylech gynnwys cofnod o'r canlynol:

- Pa welliannau a fwriedir, gan gynnwys sut mae'r rhain yn dylanwadu ar ddeilliannau cadarnhaol i unigolion rydych yn eu cefnogi
- Sut y gellir annog unigolion a'u teuluoedd/gofalwyr i gyfranogi a sut y byddai eu hawliau, eu llais a'u dewisiadau yn cael eu cydnabod a sut y gweithredir arnynt.
- Trosolwg o'r ystyriaethau ymarferol ar gyfer y newidiadau rydych am eu gwneud, gan gynnwys llinell amser a chyfiawnhad dros unrhyw adnoddau ychwanegol y gall fod eu hangen arnoch.
- Y broses y byddwch yn ei defnyddio i werthuso gweithrediad eich cynllun.

Mae gofyn i chi gwrdd â'ch aseswr mewnol a'ch rheolwr/cyflogwr er mwyn trafod eich cynnig cyn dechrau Tasg Ch(ii). Bydd angen i chi drafod eich cynnig a'u cael i gytuno ar eich cynllun gweithredu arfaethedig a'i gefnogi.

Bydd eich aseswr yn arsylwi ar eich ymarfer yn ystod eich cyfnod gweithredu a bydd yn cadarnhau achlysuron addas, ar y cyd â'ch rheolwr/cyflogwr, ar gyfer arsylwi ar eich ymarfer yn erbyn eich cynllun.  Bydd eich aseswr am arsylwi ar sut rydych chi'n bodloni gofynion penodol y cynnwys gorfodol o ran gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau a chynnwys y maes llwybr o'ch dewis.

***Amodau asesu***

Gweithio'n annibynnol mewn amodau tawel, lle cewch lonydd

***Beth mae'n rhaid ei gynhyrchu ar gyfer yr asesiad:***

- Cynllun project
- Rhestr gyfeirio o unrhyw ymchwil, ffynonellau gwybodaeth neu adnoddau a ddefnyddiwyd neu y cyfeiriwyd atynt

**Tasg Ch(ii)**

Bydd gofyn i chi roi cynllun y project a ddatblygwyd yn Nhasg Ch(i) ar waith yn eich gweithle/lleoliad er mwyn cefnogi deilliannau cadarnhaol i unigolion yn eich gweithle/lleoliad.

Bydd angen i chi gadw log o fyfyrdodau drwy gydol eich proses ymarfer. Dylai'r log hwn gynnwys manylion am y rôl rydych chi wedi'i chymryd o ran rhoi eich cynllun ar waith, ynghyd â myfyrdodau ar unrhyw newidiadau o ran gweithredu rydych chi wedi'u gwneud, unrhyw heriau rydych chi wedi'u hwynebu a'u goresgyn ac ati. Dylai eich log myfyriol hefyd gynnwys ystyriaeth o'r ffordd rydych wedi defnyddio ymchwil, damcaniaethau a modelau i lywio eich ymarfer.

Cewch eich arsylwi yn ymarfer o leiaf **ddwywaith** wrth i chi roi eich cynllun gweithredu ar waith.

***Amodau asesu:***
**Nid** oes angen i'ch log myfyriol gael ei gwblhau o dan amodau goruchwylio ond rhaid iddo ddangos eich myfyrdodau gwirioneddol eich hun ar y broses weithredu (h.y. rhaid ei ysgrifennu yn eich geiriau a'ch arddull eich hun a rhaid iddo fod yn gysylltiedig â'ch ymarfer).

Cynhelir arsylwadau yn y gweithle o dan amodau arferol y gweithle.

***Beth mae'n rhaid ei gynhyrchu ar gyfer yr asesiad:***
- Log myfyriol sy'n cwmpasu'r cyfnod gweithredu
- Ffurflenni cofnodi arsylwadau (Aseswr)

### Tasg Ch(iii)

## Trafodaeth broffesiynol

Cewch eich gwahodd i gymryd rhan mewn trafodaeth broffesiynol ar ôl cwblhau Tasg Ch(ii).

**Cynnwys a strwythur y drafodaeth broffesiynol**
Bydd y drafodaeth yn seiliedig ar y wybodaeth rydych chi wedi'i darparu fel rhan o'ch asesiadau eraill sydd wedi'u cwblhau. Bydd gofyn i chi werthuso a myfyrio ar eich ymarfer drwy'r cynllun rydych chi wedi'i roi ar waith; gan ystyried sut rydych wedi defnyddio eich gwerthusiadau i lywio ymarfer ac ystyried pa mor dda, wrth fyfyrio, mae hyn wedi gwella cymorth ar gyfer cyflawni deilliannau cadarnhaol i unigolion yn eich gweithle/lleoliad.

Bydd yr aseswr yn awyddus i glywed am eich dull o weithio sy'n dangos y safon rydych yn ei chyrraedd. Yn ystod y drafodaeth, dylech sôn am y canlynol:
- Y wybodaeth a ddarparwyd yn eich tasgau
- Enghreifftiau penodol o brofiadau ac arferion gwaith
- Y wybodaeth a'r ddealltwriaeth rydych chi wedi'u meithrin drwy ymgymryd â'ch rhaglen ddysgu

Mae'r prif bwyntiau trafod wedi'u rhestru isod. Ar gyfer rhai o'r meysydd hyn, efallai y bydd yr aseswr yn gofyn mwy nag un cwestiwn i chi, neu efallai y bydd yn treulio mwy o amser yn canolbwyntio ar faes penodol. Mae'r aseswr yn chwilio am dystiolaeth eich bod wedi cymhwyso'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau o'ch dysgu ar y llwybr o'ch dewis ac y gallwch gefnogi datblygiad y sgiliau hyn yn eich gwaith ehangach.

Mae'r aseswr yn chwilio am dystiolaeth o sut rydych chi'n:
- Cymhwyso'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau o weithio o'r maes llwybr o'ch dewis

- Cymhwyso gwybodaeth am ddamcaniaethau, modelau a dulliau yn y cynnwys gorfodol a'r maes llwybr o'ch dewis, ynghyd â dealltwriaeth ohonynt
- Wedi defnyddio damcaniaethau a modelau i wella ymarfer.
- Defnyddio meddwl myfyriol a beirniadol yng nghyd-destun y maes llwybr o'ch dewis
- Wedi dangos hunanymwybyddiaeth er mwyn gwella ymarfer, gan gynnwys sut mae eich ymarfer eich hun ac eraill yn cyrraedd safonau ac yn bodloni gofynion
- Cymhwyso dealltwriaeth a gwybodaeth am sut i gynnal a gwella deilliannau i unigolion yn y maes llwybr o'ch dewis, gan gynnwys eich defnydd o ddulliau person/plentyn-ganolog
- Ffurfio dadleuon ac yn llunio barn sy'n ymwneud â gwaith yn y maes llwybr o'ch dewis.

Mae'n rhaid i chi ymateb i'r cwestiynau a ofynnir yn y drafodaeth yn annibynnol heb gymorth.

Rhaid i chi fod yn ymwybodol o gyfrinachedd wrth roi enghreifftiau o'r gweithle.

Gallwch ddod â'r ddogfennaeth ganlynol gyda chi er mwyn cyfeirio ati:
- copi o'r holl dasgau, tystiolaeth o'ch project a thystiolaeth eich portffolio
- unrhyw nodiadau paratoi

**Yr amser a ganiateir ar gyfer trafodaeth broffesiynol**
Bydd y drafodaeth yn para tua **45 munud**.

***Amodau asesu***
Trafodaeth broffesiynol, mewn amodau tawel, lle cewch lonydd

***Beth mae'n rhaid ei gynhyrchu ar gyfer yr asesiad:***
Nodiadau'r aseswr o'r drafodaeth.

# Atodiad 1 Meini prawf marcio

Mae'r meini prawf llwyddo canlynol yn adlewyrchu'r gofynion **gofynnol** sydd i'w bodloni ar gyfer pob un o'r tasgau asesu – ac y bydd eich aseswr yn adolygu eich tystiolaeth yn eu herbyn .

Cyn cyflwyno unrhyw dystiolaeth derfynol, dylech wirio ac adolygu bod eich ymateb yn cynnwys pob un o'r pwyntiau a amlinellir yn y gridiau isod.

| Tasg | Meini prawf llwyddo | Cwmpas |
|---|---|---|
| B(i) | Mae ymateb yr ymgeisydd yn dangos dealltwriaeth o ddeddfwriaeth, confensiynau a Chodau Ymddygiad ac Ymarfer Broffesiynol ymarfer sy'n ymwneud â gwerthfawrogi nodweddion unigryw a hawliau, ac sy'n hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Mae'r ymgeisydd wedi dangos ei fod yn deall a'i fod wedi ystyried yn benodol ddeddfwriaeth, confensiynau a chanllawiau sy'n gysylltiedig â'r canlynol:<br>• Cydraddoldeb a hawliau<br>• Ymarfer person/plentyn-ganolog<br>• Diogelu<br>• Y Gymraeg<br>• Eiriolaeth<br>fel rhan o'i ymateb:<br><br>Mae'r ymgeisydd yn creu cysylltiadau clir rhwng y ffordd y mae'r deddfwriaethau, confensiynau a Chodau Ymddygiad ac Ymarfer Broffesiynol ymarfer penodol hyn yn cefnogi hawliau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant o fewn y sector iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r ymgeisydd wedi dangos dealltwriaeth o sut gallai ddefnyddio'r ddeddfwriaeth, confensiynau a'r codau ymarfer hyn ac ymarfer creu amgylchedd diogel sy'n cefnogi unigolion i fynegi eu hunaniaeth ac yn hybu ymarfer person/plentyn -ganolog. | Uned 410 - DD1-DD3, DD5, DD9 |
| B(ii) | Mae'r ymgeisydd wedi darparu ymateb sy'n:<br>• dangos dealltwriaeth gadarn o'r damcaniaethau/modelau sy'n cwmpasu ffactorau biolegol, cymdeithasegol a seicolegol sy'n ymwneud ag ymarfer person/plentyn-ganolog. **Gall ymateb yr ymgeisydd gyfeirio at un model/damcaniaeth sy'n cwmpasu'r holl ffactorau hyn (e.e. y model Bioseicogymdeithasol) neu gall drafod ystod o fodelau/damcaniaethau gan fyfyrio ar ddylanwad pob un o'r ffactorau hyn.** | Uned 410 DD6, DD7, DD8 |

| | | |
|---|---|---|
| | • gwneud cysylltiadau perthnasol rhwng agweddau ar y ddamcaniaeth/model(au) dan sylw a sut y gellir cymhwyso hyn yn ymarferol er mwyn cefnogi ymarfer person/plentyn-ganolog cadarnhaol. Mae'r ymgeisydd yn dangos ystyriaeth ddamcaniaethol o'r ddamcaniaeth/model(au) a goblygiadau cymhwyso'r ddamcaniaeth/model(au) yn ymarferol.<br>• dangos sut y gellir cymhwyso dealltwriaeth o'r damcaniaeth/model(au) dan sylw i gefnogi llesiant a hawliau a rhyddid unigolion | |
| B(iii) | Mae'r ymgeisydd wedi ymateb i'r cwestiynau ac wedi dangos<br>1. Dealltwriaeth glir o'r meysydd pwnc cyffredinol<br>2. Ei fod yn gallu cysylltu pob un o'r tri maes pwnc yng nghyd-destun y senario. Mae'r ymgeisydd yn dangos cysyllteddau cadarn rhwng ei ddealltwriaeth o bob maes pwnc â sut y caiff y rhain eu cynrychioli drwy gyd-destun y senario.<br>3. Gall ddod i gasgliadau sy'n ymwneud â meysydd pwnc cyd-destun y senario. Mae'r ymgeisydd yn gallu nodi rhyng-gysylltiadau rhwng y tri maes pwnc ac yn dod i gasgliadau sy'n ymwneud â phob un o'r unigolion a gyflwynwyd yn y senario. Gall yr ymgeisydd gyfleu'r goblygiadau ar gyfer unigolion yn glir pan nad oes llais na rheolaeth.<br>4. Dealltwriaeth glir o werthoedd manwl a sgiliau cyfathrebu sy'n cefnogi cynhwysiant a chydgynhyrchu. Mae'r ddealltwriaeth hon yn gysylltiedig yn ddiogel â'r senario, gan ddangos sut y gall y sgiliau hyn gefnogi'r gwaith o ddatblygu deilliannau cadarnhaol i unigolion. Mae'n rhaid rhoi manylion o leiaf un gwerth ac un sgil cyfathrebu gyda chysylltiadau clir wedi'u darparu i ddarparu deilliannau cadarnhaol. | Uned 140 – DD4, DD5 |
| C | Er mwyn dyfarnu marc llwyddo, mae'n rhaid i'r ymgeisydd:<br>• nodi maes ymarfer i'w werthuso yn ei weithle/lleoliad.<br>• amlinellu'n glir y prosesau y byddai'n eu cymryd i gynnal gwerthusiad. Mae'r amlinelliad yn cynnwys manylion clir am y gweithgareddau y byddai'r ymgeisydd yn eu cwblhau er mwyn cytuno ar y maes ffocws, ac yn dangos sut mae wedi cynllunio i gael cymorth rheolwyr.<br>• gwerthuso'r maes ymarfer a nodwyd yn ei weithle/lleoliad. Mae'r ymgeisydd wedi ystyried effeithiolrwydd ac ymarferoldeb yr ymarfer bresennol yng nghyd-destun, a gan ystyried, y canlynol (fel sy'n briodol),<br>i) Gofynion deddfwriaethol, safonau a fframweithiau a Chodau Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol perthnasol<br>ii) ymarfer wedi'i lywio gan dystiolaeth<br>iii) Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant<br>iv) Safonau'r sector<br>v) Ystyriaethau diogelu<br>vi) Polisïau a gweithdrefnau mewnol<br>vii) Gwerthusiadau mewnol<br>viii) Gwerthusiadau allanol, gan gynnwys arolygu a sicrhau ansawdd<br><br>*Drwy ystyried effeithiolrwydd pob un o'r meysydd hyn mae'r ymgeisydd wedi dangos dealltwriaeth o'r ffordd y mae ymarfer presennol yn cefnogi deilliannau i unigolion yn y gweithle/lleoliad.*<br>• dangos ystyriaeth o sut mae ei ymarfer ei hun ac ymarfer pobl eraill yn cefnogi'r gwaith yn y maes ymarfer yn ei weithle/lleoliad. Mae'r ymgeisydd yn nodi ac yn myfyrio ar gryfderau presennol a/neu feysydd datblygu ei ymarfer ei hun ac ymarfer pobl eraill mewn ffordd fyfyriol fel rhan o'i werthusiad. | **410**<br>DD1<br>DD2<br>DD9 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | • nodi maes ffocws drwy'r ymarfer a werthuswyd. Mae maes ffocws yr ymgeisydd wedi'i nodi'n glir, gan gyfiawnhau pam y dewiswyd y maes hwn a rhoi rhesymau sy'n ymwneud yn glir â bod yn faes lle gellir cefnogi datblygiad ar gyfer deilliannau cadarnhaol unigolion. | |

# Atodiad 2 Tablau disgrifyddion graddio

Defnyddir y disgrifyddion graddio canlynol er mwyn llunio barn gyfannol gyffredinol ar gyfer asesu Tasgau A a Ch i ymgeiswyr sy'n ymgymryd ag unrhyw un o'r llwybrau yn y cymhwyster hwn.

Mae'r disgrifyddion graddio yn seiliedig ar amcanion dysgu allweddol y cymhwyster. Mae'r disgrifyddion llwyddo yn adlewyrchu'r lefel dderbyniol y mae'n rhaid i ymgeiswyr ei chyrraedd er mwyn dangos bod yr amcan wedi'i fodloni drwy'r tasgau asesu.

Mae'r disgrifyddion llwyddo wedi'u mapio i'r deilliannau dysgu allweddol yng nghynnwys y cymhwyster lle caiff yr amcanion hyn eu hadlewyrchu orau. *Sylwer*, oherwydd natur gyfannol cynnwys y cymhwyster, darperir mapio'r deilliant dysgu er mwyn nodi'r meysydd cynnwys dangosol lle gall ymgeiswyr ddangos eu gallu i fodloni'r amcanion hyn orau.

| **Amcanion** | **Cwmpas** (Uned/Deilliant dysgu) | **Disgrifydd llwyddo** |
|---|---|---|
| *Cymhwyso gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yn y llwybr a ddewiswyd* | **420** DD3<br>**421** DD1-DD6, DD8-DD9<br>**422** DD1-DD3, DD4, DD6, DD8, DD10-DD12<br>**423** DD1-DD2, DD4-DD8<br>**424** DD1, DD3-DD8<br>**425** DD1-DD2, DD4-DD11, DD13<br>**426** DD1-DD13<br>**427** DD1-DD6, DD8- DD14 | Mae ymgeiswyr yn dangos dealltwriaeth gadarn o'r maes y maent yn gweithio ynddo; maent yn deall cyd-destun eu gwaith a'r ystyriaethau penodol sydd eu hangen i gefnogi'r unigolion y maent yn gweithio gyda nhw.<br><br>Mae'r ymgeisydd yn defnyddio ei ymarfer proffesiynol ei hun i gefnogi cyfrinachedd a diogelwch unigolion yn ei leoliad. Mae hyn yn cynnwys sicrhau ei fod ef a'r lleoliad yn cydymffurfio â gofynion ar gyfer cofnodi gwybodaeth, adrodd ar wybodaeth a'i storio.<br><br>Mae'r ymgeisydd yn arwain ymarfer sy'n cefnogi pobl eraill i ddeall ystyriaethau diogelu a sut i hybu diogelwch wrth weithio gydag unigolion. |
| *Cymhwyso gwybodaeth am **ddamcaniaethau, modelau a dulliau** yn y maes llwybr a ddewiswyd, ynghyd â dealltwriaeth ohonynt* | **420** DD1<br>**421** DD2 - DD7<br>**422** DD2-DD4, DD6, DD8, DD10<br>**423** DD1-DD3, DD5, DD7<br>**424** DD1-DD4, DD7<br>**425** DD3-DD6, DD13<br>**426** DD2-DD4, DD6, DD8-DD9, DD12<br>**427** DD1-DD5, DD7-DD9 | Mae ymgeiswyr yn dangos dealltwriaeth o amrywiaeth o ddamcaniaethau, modelau a dulliau wrth ymarfer.<br><br>Mae ymgeiswyr yn deall amrywiaeth o ddamcaniaethau, modelau a dulliau a sut maent yn sail i gymorth ar gyfer yr unigolion maent yn gweithio gyda nhw. Gallant gysylltu'r damcaniaethau, modelau a dulliau hyn yn uniongyrchol â'u gwaith gydag unigolion. Maent yn defnyddio ac yn cymhwyso damcaniaethau, modelau a dulliau priodol sy'n berthnasol i'r sefyllfa, ac yn ystyried pryd i ddefnyddio pob un yn briodol.<br><br>Mae ymgeiswyr yn deall sut mae ymarfer wedi'i lywio gan ymchwil a thystiolaeth wedi llywio ac yn sail i ddeddfwriaeth, polisïau cenedlaethol a chanllawiau ar gyfer yr unigolion y maent yn gweithio gyda nhw. Gallant gydnabod a deall sut mae eu gwaith i gefnogi unigolion yn cael ei ategu gan y fframweithiau, cynlluniau a strategaethau hyn.<br><br>*(Yn y cyd-destun hwn, byddai damcaniaethau, modelau a fframweithiau yn cynnwys fframweithiau deddfwriaethol a rheoliadol ac ymarfer wedi'i lywio gan ymchwil a thystiolaeth).* |

| Amcanion | Cwmpas (Uned/Deilliant dysgu) | Disgrifydd llwyddo |
|---|---|---|
| *Cymhwyso dealltwriaeth a gwybodaeth am **sut i gynnal a gwella deilliannau i unigolion** yn y maes llwybr a ddewiswyd, gan gynnwys defnydd o **ddulliau person/plentyn-ganolog*** | **421** DD2- DD4, DD6<br>**422** DD3-DD7, DD9, DD11- DD12<br>**423** DD1-DD7<br>**424** DD2-DD4, DD6<br>**425** DD2, DD5-DD7, DD11-DD13<br>**426** DD4-DD9, DD11-DD13<br>**427** DD3-DD5, DD7, DD9, DD11, DD14 | Mae'r ymgeisydd yn ystyried yr amrywiaeth o ddulliau cyfathrebu y gellir eu defnyddio i gefnogi unigolion. Mae ei ddull yn ystyried yr amrywiaeth o ffactorau, ystyriaethau a dulliau sy'n cefnogi unigolyn i gyfathrebu'n rhagweithiol/gael ei gefnogi'n rhagweithiol yn y ffordd orau. Mae ei ymarfer yn modelu defnyddio ac addasu amrywiaeth o ddulliau cyfathrebu a dulliau sy'n cefnogi cyfathrebu effeithiol ar gyfer unigolion.<br><br>Mae'r ymgeisydd yn dangos ei fod yn arwain ymarfer sy'n berson/plentyn-ganolog ac yn defnyddio dulliau sy'n seiliedig ar hawliau. Bwriad yr ymarfer hwn yw cefnogi unigolion mewn ffordd gydgynhyrchiol i ddeall a chael gafael ar gymorth sydd ar gael iddynt sy'n eu galluogi i ymgysylltu a chymryd rhan yn effeithiol er mwyn byw bywydau llawn a gwerthfawr/cyflawni canlyniadau cadarnhaol.<br><br>Mae'r ymgeisydd yn arwain, yn monitro ac yn adolygu ymarfer i gefnogi unigolion i gymryd risgiau ar sail gwybodaeth. |
| ***Ffurfio dadleuon a llunio barn** yn y maes llwybr a ddewiswyd* | **420** DD2<br>**421** DD3-DD4, DD6- DD8<br>**422** DD5-DD6, DD9-DD11<br>**423** DD1, DD3-DD4, DD5, DD7<br>**424** DD1-DD2, DD4, DD6<br>**425** DD1, DD3, DD5-DD7, DD13<br>**426** DD2, DD4, DD6-DD9<br>**427** DD3-DD5, DD7-DD8, DD14 | Mae'r ymgeisydd yn nodi gweithgareddau a all helpu i gefnogi gwelliannau yn y gweithle/lleoliad yn effeithiol, gan gynnwys drwy ei ymarfer ei hun ac ymarfer pobl eraill.<br><br>Mae ymgeiswyr yn gallu adolygu a gwerthuso effeithiolrwydd eu penderfyniadau, gan nodi'r hyn sydd wedi gweithio'n dda, a lle gellid gwneud gwelliannau. Mae gwerthusiadau yn adlewyrchu'r ffordd y defnyddir fframweithiau deddfwriaethol a damcaniaethol, ynghyd ag ymarfer wedi'i lywio gan ymchwil a thystiolaeth.<br><br>Mae ymgeiswyr yn defnyddio eu dyfarniadau eu hunain i gefnogi'r gwaith cydweithredol o ddatblygu a rhoi cynlluniau ar waith, gan gynnwys gyda phobl eraill, i gefnogi unigolion. |

| **Amcanion** | **Cwmpas** (Uned/Deilliant dysgu) | **Disgrifydd llwyddo** |
|---|---|---|
| *Defnyddio* ***meddwl myfyriol a beirniadol*** *yng nghyd-destun y maes llwybr a ddewiswyd* | **420** DD1-DD2<br>**421** DD3, DD5<br>**422** DD6<br>**423** DD1-DD6<br>**424** DD1-DD4, DD6<br>**425** DD3-DD7, DD13<br>**426** DD4-DD9, DD11-DD12<br>**427** DD1-DD2, DD4-DD5, DD9 | Mae ymgeiswyr yn gwerthuso eu gwaith eu hunain ac yn myfyrio arno gan ddangos sut y defnyddiwyd hyn i gefnogi eu gwaith wrth iddynt roi cynllun eu project ar waith yn ymarferol.<br><br>Mae'r ymgeisydd wedi dangos bod myfyrio ar ei ymarfer ei hun wedi dylanwadu ar ei ffordd o weithio ac wrth fyfyrio ar ymarfer presennol drwy roi cynllun ei broject ar waith yn y gweithle/lleoliad.<br><br>Mae'r ymgeisydd wedi dangos dealltwriaeth o'r modd y mae ei ffordd o weithio wedi cael effaith gadarnhaol ar eraill, o fewn y gweithle/lleoliad a'r tu allan iddo, a'r effaith y mae ei waith wedi'i chael ar yr unigolion y mae'n gweithio gyda nhw.<br><br>Mae'r ymgeisydd yn defnyddio dadansoddiad beirniadol fel mater o drefn er mwyn monitro a llywio ei ymarfer a myfyrio arno, a'r ymarfer yn y lleoliad. Defnyddir y casgliadau y deuir iddynt i wneud y penderfyniad mwyaf hyddysg ar gyfer y sefyllfa. |

| Amcanion | Cwmpas (Uned/Deilliant dysgu) | Disgrifydd llwyddo |
|---|---|---|
| *Dangos* ***hunanymwybyddiaeth*** *er mwyn gwella ymarfer* | **420** DD1, DD2<br>**421** DD2-DD4, DD6, DD8<br>**422** DD3-DD4, DD6<br>**423** DD1, DD4-DD5<br>**424** DD1-DD2, DD4, DD6<br>**426** DD3, DD5-DD7, DD13<br>**427** DD1-DD3, DD5, DD9 | Mae'r ymgeisydd yn dangos ei fod yn defnyddio dadansoddiad beirniadol fel mater o drefn er mwyn llywio ei ymarfer a myfyrio arno. Defnyddir y casgliadau y deuir iddynt i wneud y penderfyniad mwyaf hyddysg ar gyfer y sefyllfa. Mae'r ymgeisydd yn dangos sut mae ei ymarfer ei hun wedi cael ei addasu yn seiliedig ar fyfyrio.<br><br>Mae'r ymgeisydd wedi parhau i ddatblygu'n broffesiynol yng nghyd-destun ei rôl i sicrhau ei fod yn cyrraedd y safonau ac yn bodloni gofynion ac yn adlewyrchu ymarfer presennol. Mae'n dangos y gallu i werthuso ei wybodaeth, ei ddealltwriaeth a'i sgiliau ei hun yn erbyn:<br>• gofynion deddfwriaethol perthnasol<br>• safonau a fframweithiau perthnasol<br>• Codau Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol<br>• ymarfer wedi'i lywio gan dystiolaeth<br><br>Mae'r ymgeisydd yn llunio barn gadarn ar effeithiolrwydd ei ymarfer mewn ymateb i'w werthusiad yn erbyn gofynion beirniadol a gall nodi ble y gellir rhoi gwelliannau ar waith a'u cymeradwyo – a sut y gall gefnogi'r newidiadau hyn yn bersonol drwy ddatblygu ei ymarfer.<br><br>Mae'r ymgeisydd yn defnyddio ei ddatblygiad proffesiynol parhaus ei hun i gefnogi modelu arfer gorau yn y lleoliad a chefnogi pobl eraill i ddatblygu ymarfer. |

# Atodiad 6 Ffurflen cymeradwyo project

| Lefel 4 Ymarfer Proffesiynol yn y maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol | |
|---|---|
| **Enw'r ymgeisydd:** | **Dyddiad y cyfarfod:** |
| **Rhif ENR yr ymgeisydd:** | |
| **Enw'r ganolfan:** | **Rhif y ganolfan:** __ __ __ __ __ __ __ |
| **Lleoliad** | |
| **Cyfle** | |

**At ddefnydd y ganolfan:**

Disgrifiwch sut mae cynllun y project yn cyflawni'r amcanion canlynol.

| Amcan | Disgrifiad |
|---|---|
| Darparu cyfle i gymhwyso gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau o fewn y maes llwybr | |
| Darparu cyfle i gymhwyso gwybodaeth am ddamcaniaethau, modelau a dulliau yn y maes llwybr, ynghyd â dealltwriaeth ohonynt | |
| Rhoi cyfle i gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o sut i gynnal a gwella | |

| | |
|---|---|
| deilliannau unigolion yn y maes llwybr | |

**Efallai y bydd y cwestiynau canlynol yn ddefnyddiol i aseswyr yn y cyflwyniad i gynllun y project:**

| **Rhif y cwestiwn** | **Cwestiwn** |
|---|---|
| Cw.1 | Beth yw'r risgiau posibl sy'n gysylltiedig â gweithredu eich cynllun arfaethedig ac a allwch nodi unrhyw gynlluniau wrth gefn ar gyfer y gweithle/lleoliad? |
| Cw. 2 | Beth fydd yr heriau, yn eich barn chi, wrth reoli'r broses o roi'r ymarfer a gynigir yng nghynllun eich project ar waith? |
| Cw.3 | Pa strategaethau rydych yn eu hystyried i fonitro, mesur ac adrodd ar effaith y broses o roi'r ymarfer a gynigir yng nghynllun y project ar waith? Esboniwch y rhesymau dros eich dewis. |

| **Cyfleoedd i arsylwi ar ymarfer**<br>*Nodwch isod gyfleoedd penodol y mae cynllun yr ymgeisydd yn eu rhoi i arsylwi ar ymarfer.* |
|---|
| |

| **Sut mae'r cynllun yn sicrhau y caiff yr uned ei chwmpasu**<br>Nodwch isod ddeilliannau dysgu cynnwys y llwybr lle na cheir digon o dystiolaeth o gwmpas drwy'r project, fel y gwelir yng nghynllun y project. |
|---|
| |

| | |
|---|---|
| **Deilliant** | |
| **Project wedi'i gymeradwyo**<br>Mae'r ymgeisydd yn gallu dechrau'r broses o roi'r project ar waith. | |
| **Project wedi'i gymeradwyo yn amodol ar ddiwygiadau**<br>Mae'r aseswr o'r farn bod y cyfle yn addas i'r ymgeisydd fwrw ymlaen â'r project, yn amodol ar ddiwygiadau. (Rhowch sylwadau ar ddiwygiadau yn yr adran sylwadau.) | |
| **Project wedi'i wrthod**<br>**Nid** yw'r aseswr o'r farn bod y cyfle yn addas i'r ymgeisydd fwrw ymlaen â'r project. (Rhowch sylwadau yn yr adran sylwadau.) | |

| | |
|---|---|
| Llofnod yr ymgeisydd: | |
| Dyddiad: | |
| Llofnod yr aseswr: | |
| Dyddiad: | |
| Cadarnhad o lofnod y rheolwr/cyflogwr: | |
| Dyddiad: | |